



Catrin Howell, *Hound* (Cyfres 'Bestiary'), 2011

## Clai

Daw'r gair 'serameg' o'r gair Groegaidd κέραμος (*keramos*) a ddefnyddir i ddisgrifio clai, teils neu grochenwaith y crochenydd.

*Serameg: wedi'i wneud o glai a'i galedu'n barhaol gan wres (ansoddair)*

*Seramegau: potiau ac eitemau eraill wedi'u gwneud o glai a'u caledu gan wres (enw)*

– *Oxford Dictionary*

Mae darnau o seramegau, a ganfuwyd gan archeolegwyr yn awgrymu fod bodau dynol wedi bod yn gwneud potiau a ffigurau ers cyn y cyfnod Neolithig: darganfuwyd ffigurau yn y Weriniaeth Tsiec a oedd yn dyddio i 29,000 Cyn Oed Crist a llestri yn Jiangxi, Tsieina o c.20,000 Cyn Oed Crist. Roedd yr enghreifftiau cynnar hyn wedi'u gwneud o glai, weithiau wedi'i gymysgu â deunydd arall, ac yna eu caledu gan dân neu eu pobi yn yr haul. Roedd potiau diweddarach yn cael eu haddurno, un ai cyn neu wedi'r tanio, a'u gwydro i greu arwynebau llyfn a oedd yn fwy gwydn a gwrthiannol i hylif. Mae seramegau heddiw'n cynnwys dim nid ond gwrthrychau domestig, ond hefyd gynhyrchion diwydiannol ac adeiladu, fel brics, teils, deunydd misglwyf, brêcs disg, deunydd deintyddiaeth a pheirianeg uwch.

### Gwahanol fathau o seramegau

- Llestri pridd: crochenwaith wedi'i wneud o glai, wedi'i gymysgu'n aml â silica, cwarts, ffelsbar etc. Mae angen ei wydro er mwyn ei wneud yn ddwrglos.
- Crochenwaith caled: crochenwaith trwm, afloyw wedi'i danio ar dymheredd uchel. Mae'n anhydraidd felly nid oes angen ei wydro.
- Porslen: Serameg caled, gwyn wedi'i wneud drwy danio clai pur (ar ffurf caolin fel rheol) ac yna ei wydro – fe'i gelwir yn aml yn 'tsieni' o fan ei darddiad.
- Tsieni asgwrn: porslen past-meddal wedi'i gyfansoddi o lwch esgyrn, ffelsbar a chaolin.

## Clai mewn Celfyddyd Gyfoes

Clai yw un o'r defnyddiau hawddaf i'w fodelu ac mae'r rhan fwyaf o blant wedi chwarae ag o ar ryw adeg, pe bai ond i ffurfio 'nadroedd' drwy roli'r deunydd rhwng eu dwylo. Bydd cerflunwyr yn aml yn gwneud eu 'maquettes' neu eu modelau mewn clai cyn trosi eu dyluniadau'n ddeunydd mwy parhaol fel carreg neu efydd. Ers diwedd yr 20fed ganrif, mae clai wedi ei ddyrchafu o'i gysylltiadau crefftau gostyngedig, i ddeunydd sy'n cael ei ffafrio gan artistiaid radical. Roedd Pablo Picasso yn rhannol gyfrifol am y diddordeb newydd yma mewn seramegau pan sefydlodd stiwdio grochenwaith ym Madoura yn Ne Ffrainc yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Mae artistiaid eraill sy'n gweithio â chlai'n cynnwys Antony Gormley, Andy Goldsworthy, Emma Rodgers, Catrin Howell.

## Tasgau

**Trafodwch** wahanol ddefnydd i grochenwaith mewn bywyd dyddiol. Sut mae siapiau a deunydd yn adlewyrchu eu defnydd? Gwnewch restr o gymaint o enghreifftiau ag y gallwch chi yn eich cartref. Gwnewch frasluniau neu cymrwch ffotograffau.

**Casglwch** ddelweddau o seramegau o gylchgronau, taflenni a gwefannau. Pam, yn eich tyb chi, fod gwahanol wledydd neu ranbarthau'n cynhyrchu crochenwaith o wahanol arddulliau? Cymharwch a chyferbynnwch enghreifftiau o grochenwaith Periwaidd, Mecsicanaidd, Celtaidd, Groegaidd, Eifftaidd etc. Beth all crochenwaith ei ddweud wrthoch chi am y cyfnod y cafodd ei gynhyrchu? Trafodwch wahanol wrthrychau – i beth fydden nhw'n cael eu defnyddio? Sut oedden nhw'n cael eu haddurno?

**Chwiliwch am wybodaeth** am wahanol fathau o wydriad ac o beth maen nhw'n cael eu gwneud (e.e. du haearn, gwyn ffelsbar, a gwyrdd copr).

**Gwnewch** bot o dorchau o glai a'i addurno â'ch dyluniad eich hun. Edrychwch ar seramegau sy'n cael eu harddangos yng Nghanolfan Grefft Rhuthun ac mewn llyfrau neu gylchgronau i gael ysbrydoliaeth. Os nad oes gennych odyn, defnyddiwch glai 'air-dry' fel 'fimo' neu 'das'. Arbrowfch â gwahanol gelfi neu bwysu gwrthrychau i mewn i'r clai i greu patrymau a gweadeddau.

**Edrychwch** ar ffotograffau o osodiadau 'Field' Antony Gormley yn ei wahanol leoliadau, rownd y byd. Gwnewch eich fersiwn eich hun drwy lenwi cornel eich ystafell ddosbarth â ffigurynnau clai.

## Adnoddau Pellach

Groom, Simon, *A Secret History of Clay – from Gauguin to Gormley*, Tate Publishing 2004

Leach, Bernard, *A Potter's Book*, Faber and Faber, 2011

Mattison, Steven, *The Complete Potter: The Complete Reference to Tools, Materials and Techniques for all Potters and Ceramicists*, Apple Press, 2003

Cooper, Emmanuel, *Ten Thousand Years of Pottery*, The British Museum Press, 2002

Cooper, Emmanuel, *Contemporary Ceramics*, Thames & Hudson, 2009

Handbook of Pottery, Longman 1970

[www.vam.ac.uk/page/c/ceramics/](http://www.vam.ac.uk/page/c/ceramics/)

[www.vam.ac.uk/content/articles/a/a-to-z-of-ceramics](http://www.vam.ac.uk/content/articles/a/a-to-z-of-ceramics)

<http://www.antonygormley.com/projects/item-view/id/245>

[www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/archif-arddangosfeydd/](http://www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/archif-arddangosfeydd/)

## Gwaith mewn Ffocws: Claire Curneen

### *St Sebastian 2008*

Wedi'i geni yn Swydd Kerry, Iwerddon, mae Claire Curneen wedi byw a gweithio yng Nghymru ers cwblhau ei MA yng Nghaerdydd yn 1992. Yn Eisteddfod Genedlaethol 2001 fe enillodd y Fedal Aur mewn Crefft a Dylunio, yn 2005 fe gafod Wobr Cymru Greadigol Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn 2012 Wobr Cennad Cymru Greadigol.

Mae ei seramegau ffigurol yn archwilio themâu'r profiad dynol, fel genedigaeth, marwolaeth, dyheadau, ofnau, poen a thosturi. Maen nhw â chyfeiriadau'n aml at eiconograffi crefyddol o gyfnod cynnar y Dadeni Eidalaid, yn enwedig cynrychioliadau o ferthyron Cristnogol yn tystiolaethu i'w marwolaethau erchyll.

Mae Sant Sebastian yn ffefryn y mae Claire wedi ail-ymweld ag o lawer gwaith drwy gydol ei gyrfa. Mae'r fersiwn yma o 2008, yn dangos y sant o'r torso i fyny ac mae ei daldra'n 65cm. Mae wedi'i adeiladu o ddarnau o borslen gwyn sydd wedi'u tanio ac yna mae manylion wedi'u hamlygu â chyffyrddiadau o wydredd lliw.

Mae'r dewis o ddefnydd â rôl bwysig yn cyfleu dioddefaint mud y merthyr a'i wytnwch diysgog. Mae arwyneb caled, brau'r porslen yn awgrymu cryfder a sefydlogrwydd sy'n cyferbynnu â'r clai meddal sydd wedi cracio oddi tano. Nid efydd neu farmor llyfn eiconau traddodiadol mo hwn, ond corff mandyllog, creithiog, wedi'i orchuddio ag ôl bysedd yr artist. Mae'r marciau hyn yn datgelu'r broses a'r deunydd, a hefyd gyffyrddiad dynol. Mae gwadedd y ffigwr clai sydd wedi'i gafnu'n ein hatgoffa o gyflwr bregus, clwyfadwy'r ffrâm ddynol. Mae saethau'n trywanu corff Sebastian gyda dafnau o aur yn lle gwaed i awgrymu maint ei aberth.

'Byddaf yn teimlo'n angerddol ynglyn â phethau sydd ag iddynt ystyr. Mae'n rhaid iddynt fod yn bwysig'

Claire Curneen

Claire Curneen  
*St. Sebastian*,  
65cm x 30cm, 2008.  
ffoto: Dewi Tannatt Lloyd



## Tasgau

**Ymchwiliwch** St Sebastian mewn celfyddyd. Cymharwch enghreifftiau gan Donatello, Botticelli, Mantegna, Pollaiuolo, Bernini, Caravaggio etc. Trafodwch ddehongliad y testun gan wahanol artistiaid.

**Trafodwch** ddehongliadau eraill o St Sebastian gan Claire Curneen. Siaradwch am raddfa, deunydd, prosesau, lliw, gweadedd etc.

**Gwnewch** eich modelau eich hun mewn clai a cheisiwch gyfleu emosiwn drwy eich triniaeth o'r deunydd – ceisiwch rwygo'r clai, ei greithio, ei byllu, pwysu gwrthrychau i mewn iddo i wneud gweadeddau gwahanol. Pa ddefnyddiau eraill allech chi eu defnyddio?

**Crëwch** gelfwaith haniaethol i gyfleu emosiynau fel cariad, casineb, dicter, tosturi, ofn, hapusrwydd etc. Pa liwiau, gweadeddau a deunydd fyddwch chi'n eu cysylltu â'r emosiynau hyn?

**Ewch i ymweld** ag oriel neu amgueddfa a gwnewch nodiadau a brasluniau o weithiau ffigurol gan nodi eu deunydd. Sut mae cynrychioliadau o'r corff dynol wedi newid drwy gydol hanes?

### Adnoddau Pellach

Canolfan Grefft Rhuthun (Catalog) Claire Curneen: *Succour*, 2008

Canolfan Grefft Rhuthun (Catalog) Claire Curneen: *To This I Put My Name*, 2014

[www.clairecurneen.com](http://www.clairecurneen.com)

[www.ceramics-aberystwyth.com/curneen-claire.html](http://www.ceramics-aberystwyth.com/curneen-claire.html)

[www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/archif-arddangosfeydd/](http://www.canolfangrefftrhuthun.org.uk/archif-arddangosfeydd/)



Claire Curneen, arddangosfa / Hwn Rwy'n Rhoi fy Enw, 2013